


Hen fesuriadau

Am amser maith yn ôl roedd pobl yng Nghymru yn defnyddio hen fesuriadau oedd yn hawdd i'w defnyddio gan eu bod yn dod o rannau o'r corff neu bethau cyffredin oedd gan bobl.



Modfedd - yn dod o'r gair bawdfedd (bawd+fedd), sef hyd y fawd. Mae bawd cyffredin, oedolyn tua 2.5cm o hyd.

Troedfedd - yr un hyd â troed oedolyn (tua 30cm).

Llathen - ydi un 'llath' (tua 90cm). Mae'r gair llath yn dod o hen air Cymraeg am ffon neu ddarn o bren tenau oedd yn cael ei ddefnyddio i fesur pethau.

Llaw - mae pobl yn dal i fesur ceffylau gyda 'llaw' ('hands' yn Saesneg).



→ 1 troedfedd = 12 modfedd

